





Edrych ymlaen

Looking forward





Y flwyddyn nesaf fydd fy mlwyddyn olaf fel Comisiynydd Plant. Mae ysgrifennu fy adroddiad blynyddol olaf fel pencampwr plant y genedl yn teimlo'n afreal – yr un mor afreal ag oedd ysgrifennu fy rhagair cyntaf i fy adroddiad blynyddol cyntaf yn y swydd, chwe blynedd yn ôl.

This coming year will be my last as Children's Commissioner. It feels somewhat surreal to be writing my last annual report as the nation's children's champion – as surreal as I felt writing my first foreword to my first annual report in post, over six years ago.

Roedd, ac mae problemau a thoriadau di-ri o ran hawliau plant gan y swyddfa i'w rheoli, ond pan ddechreuais yn 2008 gosodais ddwy her i mi fy hun: y gyntaf oedd codi ymwybyddiaeth o'r rôl ac o hawliau plant. Heddiw, mae ffigurau'r ar gyfer y ddau yn uwch nag erioed. Yr ail oedd gweithio gyda fy nhîm yn Abertawe a Bae Colwyn i adeiladu corff cryf, hyderus a gwydn. Rwyf i'n hyderus y bydd y trydydd Comisiynydd yn canfod grŵp o swyddogion talentog ac ymroddgar, a bydd eu rolau'n cael eu cryfhau ymhellach gan yr adolygiad annibynnol rydym ni wedi'i sicrhau o rôl a swyddogaethau'r swyddfa.

Ydw, rwyf i wedi profi digon o rwystredigaethau a rhai llwyddiannau ar hyd y ffordd, ond rwyf i'n dweud y gwir pan fyddaf i'n sôn wrth blant a phobl ifanc mai bod yn Gomisiynydd Plant yw'r swydd orau yng Nghymru.

There were, and remain, countless issues and child rights breaches for the office to manage but I began in 2008 by setting myself two challenges: the first was to raise awareness of the role and of children's rights. Today, the figures for both have never been higher. The second was to work with my team in Swansea and Colwyn Bay to build a strong, confident and resilient organisation. I am confident the third Commissioner will find in place a group of talented and dedicated officers, whose roles will be further strengthened by the independent review we've secured into the role and functions of the office.

Yes, I've experienced plenty of frustrations and some successes along the way, but it's a genuine statement when I tell children and young people that being the Children's Commissioner is the best job in Wales.

Dyma flas o'r hyn sydd i ddod yn ystod fy misoedd olaf yn y swydd:

- **Seibiannau byr:** astudiaeth o'r ddarpariaeth seibiannau byr i blant a phobl ifanc ag anableddau a'u rhieni / gofalwyr yng Nghymru
- **Unedau Cyfeirio Disgyblion:** prosiect yn edrych ar ddarpariaeth unedau cyfeirio disgyblion, gan ganolbwyntio ar farn dysgwyr, eu llesiant a'u hawl i addysg.
- **Eiriolaeth:** gwaith yn dilyn argymhellion 'Lleisiau Coll: adolygiad o eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal'.
- **Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)** – gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad uniongyrchol o wasanaethau iechyd meddwl yn gallu cael gwrandawriad drwy gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
- **Dinasyddiaeth ddigidol:** darn o waith ar y cyd â Wise Kids ar lythrennedd digidol a dinasyddiaeth ddigidol disgyblion Blwyddyn 9 ar draws Cymru
- **Tasg arbennig i'r Llysgenhadon Gwych** yn ymwneud â chiniawau ysgol.

Here's a taster of what's to come during my final few months in post:

- **Short breaks:** a study of short breaks provision for children and young people with disabilities and their parents / carers in Wales
- **Pupil Referral Units:** a project examining the provision of education in pupil referral units, focussing on the views of learners, their wellbeing and their right to education.
- **Advocacy:** follow up work on the recommendations of 'Missing Voices: a review of independent professional advocacy for looked after children and young people'.
- **Children and Adolescent Mental Health Service (CAMHS)** – working to ensure that children and young people with direct experience of mental health services are able to get their voices heard by giving evidence to the Children, Young People and Education Committee
- **Digital citizenship:** a joint piece of work with WISE KIDS on digital literacy and digital citizenship of Year 9 pupils across Wales
- **A Super Ambassadors special mission on school dinners.**

